Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl317

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Arian ar gyfer clwb paffio *Stallion Boxing***

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae clwb paffio *Stallion Boxing* yn cynnig *'Box Clever'*, sef rhaglen ymyrraeth gynnar ac atal. Mae clwb paffio *Stallion Boxing* yn cydnabod bregusrwydd pobl ifainc dan anfantais, ac wedi datblygu rhaglen ar gyfer helpu i wella dewisiadau/cyfleoedd bywyd cadarnhaol, atal niwed yn y gymuned ac annog hyder.

Gofynnwyd i'r CHTh roi arian i gefnogi cyflenwi'r rhaglen hon.

Mae'r prosiect wedi'i fwriadu ar gyfer y ddemograffeg oed 11-16 sydd eisoes yn adnabyddus o fewn y system cyfiawnder troseddol, neu sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.

Lluniwyd y prosiect ar gyfer helpu myfyrwyr i ddeall am fyw bywyd sydd wedi'i danategu gan werthoedd ac egwyddorion moesol cryf, deall manteision ymarfer corff/bwyta'n iach er mwyn gwella iechyd a lles, a sgiliau sylfaenol y grefft o baffio, sy'n arwain at agwedd ddisgybledig ar gyfer gwneud penderfyniadau cymdeithasol, corfforol, deallusol ac emosiynol gwell.

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at bobl ifainc sydd ddim yn ymrwymo'n llawn i addysg, neu sy'n ei chael hi'n anodd ymrwymo'n llawn i addysg, ac yn cefnogi pobl ifainc sy'n agored i niwed a/neu mewn perygl o syrthio tu allan i'r system addysg a chyflogaeth, ac felly mewn perygl o gael eu camfanteisio neu gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.

Rhaglen dreigl 6 wythnos fydd y prosiect am gyfanswm o 4 carfan (24 sesiwn). Bydd pob carfan yn cynnwys 10 unigolyn a fydd yn ymgymryd â sesiwn yr wythnos am 10 wythnos.

Gwnaed cais am £4,700 i gefnogi'r rhaglen hon tan fis Mai 2024.

**Argymhelliad:**
Rhoi £4,700 o Gronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Comisiynydd er mwyn cefnogi rhaglen clwb paffio *Stallion Boxing*.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 30/10/23**